

Adroddiad i'r	Pwyllgor Safonau
Dyddiad y cyfarfod	6 Ebrill 2023
Aelod Arweiniol / Swyddog	Gary Williams – Cyfarwyddwr Corfforaethol – Llywodraethu ac Archwilio
Pennaeth Gwasanaeth	Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Awdur yr Adroddiad	Lisa Jones
Teitl	Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Adolygiad Penn

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Rhoi'r ddogfen Ymgynghori i'r Aelodau a ryddhawyd ar 24 Mawrth 2023 sy'n ymdrin ag Adolygiad Penn i alluogi'r Pwyllgor i gyfrannu.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ceisio barn y Pwyllgor Safonau ar ymateb Llywodraeth Cymru ac ystyried y cwestiynau y mae'r ymgynghoriad yn eu codi, cyn casglu barn aelodaeth ehangach y Cyngor a swyddogion allweddol sy'n ymwneud â'r Fframwaith Moesegol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau'n ystyried y cwestiynau a godwyd yn y papur Ymgynghori a rhoi eu barn i'r Swyddog Monitro o safbwynt y Pwyllgor.

3.2 Nid oes angen Aseiad o'r Effaith ar Les fel rhan o'r penderfyniad hwn.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r Pwyllgor wedi cael y newyddion diweddaraf mewn cysylltiad ag adolygiad y Fframwaith Moesegol yng Nghymru - 'Adolygiad Penn' - a ddechreuodd yn 2021, nid yw fframwaith o'r fath wedi newid llawer ers ugain mlynedd. Bydd Aelodau'n cofio o adroddiadau blaenorol bod cam cychwynnol yr adolygiad wedi canfod bod y fframwaith yn addas i'r diben ond roedd yna rai meysydd a allai elwa o newidiadau yn y dyfodol.

4.2 Tynnir sylw'r Aelodau at y Papur Ymgynghori sydd ynghlwm yn Atodiad 1 ac ystyried y 21 cwestiwn a godwyd.

4.3 Bydd cyflwyniad ar y papur yn cael ei gyflwyno i Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn y cyfarfod hwn i hwyluso'r drafodaeth a fydd yn dylanwadu ac yn cyfrannu at yr ymateb y mae'r Cyngor yn dymuno ei roi.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

Mae'r Fframwaith Moesegol yn cyfrannu at thema Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

Mae'n debygol y bydd y penderfyniad neu'r cyfraniad yn cael effaith niwtral ar fod yn Gyngor ecolegol gadarnhaol a di-garbon erbyn 2023, serch hynny bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar ôl yr ymgynghoriad i lywio'r asesiad.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau uniongyrchol ychwanegol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

At ddibenion y cyfraniad hwn i'r Ymgynghoriad, nid oes angen asesiad o effaith ar les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Nid oes ymgynghoriadau eraill wedi cael eu cynnal ar y Papur Ymgynghori ond bydd ymgynghori'n digwydd ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Safonau ac ar ôl iddynt roi eu barn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol.

10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

Nid oes yna risgiau yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Fframwaith Moesegol a sefydlwyd yn ôl y gofynion hynny.

Adran 8.6.9 o Gyfansoddiad y Cyngor.